



POLISI CWYNIION

**Asesiad o'r Effaith ar
Gydraddoldeb:**

Cwblhawyd 30/05/23

**Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith
Gymraeg:**

Cwblhawyd 30/05/23

Haen:

3

Cymeradwywyd gan:

CLT

Dyddiad Cymeradwyo:

07 Mehefin 2023

Awdur:

**Cyfarwyddwr
(Ansawdd a Phrofiad Dysgwr)**

Dyddiad Adolygu:

Ebrill 2025

Cyhoeddwyd ar:

**Mewnwyd
Porth y Dysgwyr**

COLEG GWENT

POLISI CWYNION

DATGANIAD POLISI

Gweledigaeth y coleg yw bod Y Dewis Coleg Delfrydol. Mae'r coleg wedi ymrwymo i ddatblygu cymunedau dysgu lle caiff dysgwyr eu trin fel partneriaid cyfartal wrth lunio eu profiad dysgu.

Mae darparu gwasanaeth o ansawdd dda yn bwysig ac mae rheoli cwynion ffurfiol yn un o'r dulliau a ddefnyddir i wella profiad cwsmeriaid. Mae cyfryngau eraill a ddefnyddir i ymgysylltu â dysgwyr yn cynnwys holiaduron rheolaidd, fforymau dysgu a grwpiau ffocws. Defnyddir adborth o'r rhain i gyd i wella profiad dysgwyr a rhanddeiliaid ehangach.

DIBEN A CHWMPAS

Mae'r polisi hwn yn croesawu'r gofyniad i roi sylw dyledus i bob grŵp o ddysgwyr yn ôl nodwedd warchoddedig a sicrhau bod pob dysgwr yn gallu gwneud unrhyw gŵyn sydd ganddo, a'i dilyn.

Mae'r coleg yn diffinio cwyn fel mynegiant o anfodlonrwydd gan un myfyriwr neu fwy ynghylch gweithredoedd neu ddiffyg gweithredu gan y coleg, neu ynghylch safon y gwasanaeth a ddarparwyd gan y coleg, neu ar ei rhan. Mae enghreifftiau o'r hyn sy'n gyfystyr â chwyn wedi'u cynnwys yn Atodiad A, tra bod Atodiad B yn darparu canllaw i wahaniaethu rhwng cwynion difrifol a rhai nad ydynt yn ddifrifol.

Mae'r Polisi hwn yn ymdrin â chwynion gan ddarparu ddysgwyr, dysgwyr, rhieni, cyflogwyr, aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys pob agwedd ar weithgarwch y coleg, e.e cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch, dysgu seiliedig ar waith, cyrsiau masnachol ac addysg gymunedol. Mae'r gweithdrefnau wedi'u cynllunio i ymdrin ag unrhyw agwedd ar ein gwasanaethau gan gynnwys addysgu a hyfforddi, gwasanaethau cymorth, cyngor ac arweiniad a chyfleusterau'r coleg, lle mae'r achwynydd(ion) yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn annheg neu'n amhriodol, neu os ydynt yn teimlo nad yw'r gwasanaeth a gawsant yn bodloni eu disgwyliadau.

Nid yw'r polisi hwn yn cynnwys cynrychiolaeth gan ddysgwyr yn erbyn penderfyniadau a wneir mewn arholiadau ac asesiadau gan fod hyn wedi'i gynnwys yn y **Polisi a Gweithdrefnau Apeliadau Dysgwyr** sydd i'w weld yma <http://learners.colegwent.ac.uk/>. Gall dysgwyr hefyd gyfeirio at bolisi priodol y corff dyfarnu ar asesu a chydymffurfio.

EIN HADDEWID:

- ❖ Cyhoeddi ein Polisi a Gweithdrefnau Cwynion i ddarparu ddysgwyr, dysgwyr, rhieni, cyflogwyr ac aelodau o'r cyhoedd, ar wefan y coleg ac ar y Porth Dysgwyr. Bydd copïau caled ar gael yn Nerbynfeydd y campysau. Yn yr un modd â chyhoeddiadau coleg eraill, efallai y gofynnir am gyfryngau eraill i fodloni gofynion unigol. Mae'r polisi a'r weithdrefn hon hefyd ar gael yn Saesneg.
- ❖ Ymchwilio i gwynion yn gyflym ac yn effeithiol mewn modd moesgar a chwrtais.
- ❖ Cyn belled ag y bo modd, ymdrin â chwynion yn gyfrinachol.
- ❖ Sicrhau bod cwynion yn cyrraedd yr unigolyn cywir ar unwaith, a bod yr achwynydd yn gwybod pwy sy'n delio â'r gŵyn.

- ❖ Ymchwilio i gwynion yn drylwyr, a rhoi datrysiad cyflym lle bo'n briodol i atal y broblem rhag codi eto.
- ❖ Rhoi gwybod i ddysgwyr a chwsmeriaid ehangach am ein cynnydd wrth ddatrys eu problemau.
- ❖ Monitro a dadansoddi cwynion yn rheolaidd a defnyddio'r wybodaeth hon i wella ein systemau a'n gwasanaethau yn y dyfodol.

DYSGWYR SY'N ASTUDIO CYRSIAU ADDYSG UWCH BREINIOL YN Y BRIFYSGOL:

(Prifysgol De Cymru, Prifysgol Caerwrangon, Prifysgol Aberystwyth)

Mae'r contract rhwng y Brifysgol a Choleg Gwent yn nodi:

- ❖ Bydd partneriaid yn cyrchu'r Rheoliadau a Gweithdrefnau Cwynion Myfyrwyr os yw'r gŵyn yn ymwneud â materion academaidd; lle mae materion yn gyfrifoldeb i'r partner, er enghraifft cyfleusterau meithrinfa, dylai dysgwyr ddefnyddio Gweithdrefnau Cwynion Coleg Gwent.

Lle dilynir Gweithdrefnau Cwynion Coleg Gwent, rhaid anfon Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau (Atodiad E) at y dysgwr wrth ddod â'r gŵyn i ben. Bydd yr achwynydd wedyn yn gallu cael mynediad at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) os ydyw'n dymuno apelio yn erbyn y penderfyniad. Cyfeiriwch at Atodiad D.

GWEITHDREFNAU CWYNION

Cam 1 (Datrysiaid Rheng Flaen)

Pan fydd materion yn syml ac yn hawdd eu datrys, ac angen ychydig neu ddim ymchwil, dylai'r rhain gael eu trafod ar unwaith gyda'r staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gŵyn. Gall yr Arweinydd Cwrs, y Tiwtor Personél neu'r Hyfforddwr ddelio â phryderon ynglŷn â chyrsgiau. Gall y Pennaeth Gwasanaeth Dysgwyr ddelio â phryderon am gymorth i ddysgwyr. Os yw'r unigolyn yn ansicr, dylai gysylltu â'r Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr a fydd yn gallu rhoi cyngor (cyfeiriwch at y Cysylltiadau Defnyddiol yng nghefn y llyfryn hwn.)

Cam 2 (Cwyn Ffurfiol)

Lle nad yw'n bosibl datrys materion dan Cam 1, dylid llenwi Ffurflen Gwynion/Adborth Cwsmer, sydd i'w gweld ar Borth y Dysgwyr ac ar wefan y coleg. Bydd unigolion sydd eisoes yn astudio yn y coleg yn cael eu hannog i sicrhau bod y prosesau cywir eisoes wedi'u dilyn cyn cofnodi cwyn ffurfiol, h.y. Cam 1 uchod.

Bydd y gŵyn yn cael ei chyflwyno'n electronig a'i chyfeirio at yr ARWEINYDD enwebedig fel y bo'n briodol, er enghraifft:

- ❖ **Cynorthwydd Personol i Gyfarwyddwr y Gyfadran berthnasol:** Pryderon yn ymwneud â chwricwlwm, addysgu a dysgu
- ❖ **Pennaeth Dwyieithrwydd a Dysgu Cymunedol:** Pryderon yn ymwneud ag Addysg Gymunedol
- ❖ **Cyfarwyddwr (Ansawdd a Phrofiad Dysgwyr):** Pryderon yn ymwneud â materion ar draws y coleg, gan gynnwys cwynion yn ymwneud â chydymffurfio â safonau darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- ❖ **Cyfarwyddwr Ymgysylltiad Allanol:** Pryderon yn ymwneud â dysgu seiliedig ar waith

Anfonir ymateb awtomatig i gydnabod bod y gŵyn wedi dod i law. Bydd yr ARWEINYDD wedyn yn adolygu'r gŵyn ac yn anfon cydnabyddiaeth (Atodiad C) cyn pen 5 diwrnod gwaith, yn nodi:

- ❖ Y rheolwr a fydd yn delio â'r gŵyn.
- ❖ Sut yr ymdrinnir â'r gŵyn.
- ❖ Pryd y gellir disgwyl ymateb llawn (dim mwy na 15 diwrnod gwaith ar ôl i'r gŵyn ddod i law)

Os na all y coleg ymateb o fewn yr amser hwn, bydd yr ARWEINYDD yn ysgrifennu i egluro'r rhesymau dros yr oedi ac yn nodi pryd y gellir disgwyl ymateb. Darperir ymateb llawn yn ysgrifenedig.

Os bydd cwyn 'oddi ar y system' yn codi (e.e ar lafar, ar y ffôn, ar gyfryngau cymdeithasol), bydd y gŵyn yn cael ei chofnodi ar y porth cwynion gan yr ARWEINYDD priodol ac yn cael ei phrosesu yn unol â hynny.

Amcan y coleg yw datrys unrhyw bryderon yn gyflym ac i safon uchel. Fodd bynnag, os nad yw'r unigolyn yn fodlon â chanlyniad Cam 2, rhaid cyflwyno apêl (Cam 3) cyn pen 15 diwrnod gwaith o dderbyn yr ymateb o Gam 2.

Cam 3 (Apeliadau)

Rhaid gwneud Apêl yn ysgrifenedig i'r Pennaeth cyn pen 15 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad ein hymateb i Gam 2. Bydd penderfyniad y Pennaeth yn derfynol.

Dim ond pan fydd unrhyw un o'r amodau canlynol wedi'u bodloni y caiff ceisiadau am Apêl eu hystyried.

- ❖ Gellir cyflwyno tystiolaeth newydd nad oedd ar gael i'r rheolwr yn ystod Cam 2, a/neu
- ❖ Ni chynhaliwyd yr ymchwiliad yn deg nac yn drylwyr, a/neu nid oedd y dystiolaeth yn cadarnhau'r canfyddiadau.

Os yw'r Pennaeth yn fodlon bod y naill neu'r llall o'r amodau uchod yn berthnasol, cynhelir ymchwiliad pellach. Bydd yr unigolyn yn cael gwybod am ganlyniad yr ymchwiliad yn ysgrifenedig cyn pen 15 diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr Apêl.

Noder: Os yw'r gŵyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Pennaeth, dylid ei hanfon yn uniongyrchol at: Swyddog Llywodraethu, Campws Brynbuga, Brynbuga, NP15 1XJ.

Pryderus o hyd? Os yw'r unigolyn yn parhau i bryderu ar ôl defnyddio'r holl weithdrefnau Cwynion ac Apeliadau a restrir uchod ac os yw'r dysgwr yn astudio cwrs Addysg Uwch ac yn derbyn cyllid cymorth myfyrwyr gan Lywodraeth Cymru, cyfeiriwch at Atodiad D.

Cwynion Maleisus

Pan fydd y coleg wedi ymchwilio i gŵyn a'r canlyniad yw bod y gŵyn yn faleisus, mae'r coleg yn cadw'r hawl i ystyried a ddylid dwyn achos yn erbyn yr achwynydd os oes datganiadau a/neu honiadau ffug wedi cael eu gwneud.

Lle mae'n debygol bod dysgwr y coleg wedi gwneud datganiadau a/neu honiadau ffug yn erbyn y coleg neu aelodau o'i staff, yna gellir mynd â'r mater ymhellach dan y Polisi Disgyblu Dysgwyr.

Monitro a rhoi gwybod am gwynion

Bydd pob cwyn yn cael ei chofnodi, ei thracio a'i rheoli gan yr ARWEINWYR.

Bydd nifer a natur y cwynion yn cael eu cofnodi a'u monitro gan y Tîm Ansawdd a'u defnyddio fel sail ar gyfer yr Adroddiad Cwynion tymhorol, yn manylu ar nifer a natur y cwynion, a gyflwynir i Uwch Dîm Rheoli'r Coleg. Mae'r adroddiadau hyn yn darparu'r sail ar gyfer cyflwyno Adroddiad Cwynion Blynnyddol i'r Gorfforaeth gan yr Is-Bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd).

Mae'r Tîm Ansawdd yn dosbarthu holiadur unwaith y bydd y gŵyn wedi'i thrin. Mae hyn wedi'i gynllunio i ganfod canfyddiadau'r achwynydd o'i brofiad o'r broses gwynion. Mae adborth o'r holiaduron sy'n cael eu dychwelyd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau cwynion blynnyddol a'i ddefnyddio i wella'r gweithdrefnau, lle bynnag y bo modd.

Dysgu o gwynion

Cyn gynted â phosibl ar ôl dod â'r gŵyn i ben, bydd y rheolwr a fu'n ymdrin â'r gŵyn yn rhoi gwybod i'r achwynydd a staff yr ysgol neu adran berthnasol am ganfyddiadau'r ymchwiliad ac unrhyw argymhellion. Fan lleiaf, bydd y coleg yn:

- ❖ Defnyddio data a themâu cwynion i nodi achos sylfaenol cwynion
- ❖ Cymryd camau i leihau'r risg o ailadrodd y digwyddiad

- ❖ Cofnodi manylion camau unioni yn y ffeil gwynion
- ❖ Adolygu adroddiadau perfformiad cwynion yn systematig i wella'r gwasanaethau a ddarperir.

Cael cymorth i wneud eich cwyn

Mae'r coleg yn deall na all rhai unigolion wneud cwynion eu hunain, neu y gallant deimlo'n amharod i wneud hynny. Derbynnir cwynion gan gynrychiolydd unigolyn sy'n anfodlon â'r gwasanaeth a ddarparwyd. Gall y coleg dderbyn cwynion gan ffrind neu berthynas os ydynt wedi cael caniatâd i gwyno ar ran yr unigolyn.

Mae'r coleg wedi ymrwmo i sicrhau bod gwasanaethau yn hawdd i bawb eu defnyddio. Yn unol â dyletswyddau cydraddoldeb statudol, bydd y coleg bob amser yn cymryd gofal i wneud addasiadau rhesymol i helpu unigolion gyrchu a defnyddio gwasanaethau'r coleg.

Gall y wybodaeth hon fod ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill, gan gynnwys ffont mawr neu Braille. Mae croeso i chi gysylltu â'r Gwasanaethau Dysgwyr ar y campws.

Ffurflen Gwynion/Adborth Cwsmeriaid

Cwbl Gyfrinachol

Os ydych eisoes yn astudio yn y coleg:

Ydych chi wedi trafod y mater gyda'ch tiwtor neu athro? Os ydych wedi gwneud hynny ac rydych yn dal yn anfodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd ag ef, rhowch adborth gan ddefnyddio'r ffurflen hon.

Enw:			
Cyfeiriad:			
Rhif Ffôn:			
Cwrs:		Rhif Adnabod Dysgwr:	
Campws:	.	Math o Astudiaeth:	Llawn Amser; Rhan Amser; Addysg Uwch; Dysgu Seiliedig ar Waith, Addysg Gymunedol, Arall

Manylion y Gŵyn:

Rhowch gymaint o fanylion â phosibl, e.e. cymaint ag y gallwch am yr hyn sydd wedi mynd o'i le a sut rydych am i ni ddatrys y mater

Ydych chi wedi cwblhau popeth?

CLICIWCH YMA I ANFON

ATODIAD A

Enghreiffiau o fathau o gwynion

- ❖ Methiant i ddarparu gwasanaeth, neu ddarparu gwasanaeth o safon annigonol
- ❖ Y broses dderbyniadau
- ❖ Y broses ddisgyblu
- ❖ Cais am wasanaeth neu wybodaeth, nad ydym wedi gweithredu arno neu nad ydym wedi ymateb iddo
- ❖ Ein polisïau
- ❖ Gwybodaeth anghywir am raglenni academaidd neu ein gwasanaethau
- ❖ Safon ac argaeledd cyfleusterau ac adnoddau addysgu
- ❖ Hygyrchedd ein hadeiladau neu wasanaethau
- ❖ Ymddygiad dysgwr, aelod o staff neu gontractwr
- ❖ Triniaeth aelod o staff neu gontractwr ohonoch, neu eu hagwedd tuag atoch
- ❖ Anghytuno â phenderfyniad lle na allwch ddefnyddio gweithdrefn arall, e.e apelio
- ❖ Ein methiant i ddilyn y broses weinyddol briodol

Gall eich cwyn gynnwys mwy nag un gwasanaeth coleg neu fod yn ymwneud â rhywun sy'n gweithio ar ein rhan, er enghraifft contractwr.

Mae rhai pethau na fyddem yn eu categoreiddio fel cwyn, naill ai oherwydd eu bod yn geisiadau neu oherwydd bod gennym bolisïau a gweithdrefnau eraill i ymdrin â hwy. Ymhlith y rhain mae:

- ❖ Cais am wybodaeth neu esboniad o bolisi neu arfer
- ❖ Anghytuno â barn academaidd
- ❖ Cais am iawndal yn erbyn y coleg
- ❖ Materion sydd yn y llys neu sydd eisoes wedi cael eu clywed gan lys neu dribwnlys
- ❖ Anghytuno â phenderfyniad lle mae hawl i apelio yn bodoli, e.e. Polisi Apeliadau Dysgwyr
- ❖ Cais am wybodaeth dan y Ddeddf Diogelu Data neu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth
- ❖ Cwyn gan aelod o staff
- ❖ Ymgais i gael y coleg i agor neu ailystyried cwyn yr ydym wedi dod i gasgliad amdani neu wedi rhoi ein penderfyniad terfynol yn ei chylch.

Os gall gweithdrefnau neu hawliau apelio eraill eich helpu i ddatrys eich pryderon, byddwn yn rhoi gwybodaeth a chynghor i helpu.

ATODIAD B

Meini prawf Coch, Oren a Gwyrdd: Gwahaniaeth rhwng Cwynion Difrifol a Chwynion nad ydynt yn Ddifrifol

Sgôr	Meini Prawf	Enghreifftiau o gwynion/materion
Coch	Materion difrifol sy'n gofyn am ymchwiliad llawn ac sy'n debygol o gael effaith ar enw da'r coleg, neu lle mae'r gŵyn yn arwain at niwed anadferadwy i'r berthynas rhwng y coleg/cwsmer a/neu rhwng dysgwr/cyfoedion	<ul style="list-style-type: none"> Trosedd casineb Cam-drin rhywiol Bwlio systematig parhaus neu fwlio o natur fwy difrifol Iaith/bygythiadau sarhaus Cario arfau ymosodol Bod dan ddylanwad cyffuriau (gan gynnwys alcohol), yn meddu ar gyffuriau neu'n prynu neu werthu cyffuriau ar dir y coleg
Oren	Materion y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach ac sy'n debygol o gael effaith negyddol ar brofiad y cwsmer e.e. lle mae'r coleg yn methu, neu'n parhau i fethu â darparu gwasanaeth o safon dderbyniol neu lle mae ymddygiad dysgwr/staff yn peri pryder	<ul style="list-style-type: none"> Staff nad ydynt yn gymwynasgar a darpariaeth gwasanaeth cwsmeriaid wael Dysgwr wedi gwrthod ymrestru Gwahoddiad i ymrestru heb ei anfon Arholiad y dysgwr heb ei gyflwyno i'w ail-farcio Dysgwr yn methu â symud ymlaen i L3 heb eglurhad digonol Camddealltwriaeth rhwng dysgwyr a darlithwyr ynghylch ymddygiad staff yn yr ystafell ddosbarth
Gwyrdd	Materion bach sy'n debygol o gael effaith fechan ar brofiad y cwsmer, sy'n hawdd i'w datrys yn uniongyrchol, gydag ychydig o archwilio neu ddim o gwbl	<ul style="list-style-type: none"> Darlithoedd neu daith wedi'u canslo Car dysgwr wedi'i gau i mewn yn y maes parcio Bws wedi methu â stopio ar y campws Ni ymatebwyd i'r cais am wybodaeth grant y tro cyntaf Dryswch ynghylch dosbarth ar ba lefel sgiliau i'w fynychu Dryswch ynghylch amserlen ac ystafell

Sylwch: Mae 'cwsmer' yn cyfeirio at ddarpar ddysgwyr, dysgwyr, rhieni, cyflogwyr, aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill

ATODIAD C

Cydnabyddiaeth o'r gwyn

Annwyl (enw cyntaf)

Cyfeirnod y gwyn: (Cyfeirnod CRM)

Diolch am ddod â'ch pryderon i'm sylw, a ddaeth i'm llaw (diwrnod/dyddiad). Hoffwn eich sicrhau y byddwn yn ymchwilio i'r mater yn gyflym ac yn drylwyr.

Y rheolwr sy'n ymchwilio i'ch pryder yw (enw/teitl) a bydd (ef/hi) yn rhoi ymateb llawn i chi erbyn (Dyddiad: 15 diwrnod gwaith ar ôl i'r gwyn ddod i law). Os na allwn ymateb o fewn yr amser hwn, byddwn yn ysgrifennu atoch unwaith eto i egluro'r rheswm dros yr oedi ac i gadarnhau pryd y gallwch ddisgwyl ymateb.

Mae'r coleg yn ddiolchgar am adborth ar bob ffurf ac rydym yn ei ddefnyddio fel ffordd o wella ein gwasanaethau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech drafod unrhyw beth, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

Estyniad i 15 diwrnod gwaith i ymateb i gwyn

Annwyl (enw cyntaf)

Cyfeirnod y gwyn: (Cyfeirnod CRM)

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi na fyddwn yn gallu rhoi ymateb llawn i chi tan (dyddiad). Mae hyn oherwydd:

- Rheswm 1
- Rheswm 2

Hoffwn ymddiheuro a diolch i chi am eich amynedd. Mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffech drafod eich pryderon ymhellach.

Yn gywir,

ATODIAD D

Pryderus o hyd? Os ydych chi'n dal i fod yn bryderus ar ôl dilyn yr holl weithdrefnau Cwynion ac Apeliadau a restrir uchod, gallwch gyfeirio eich cwyn at y canlynol:

Dysgwyr Addysg Uwch* sy'n derbyn cyllid cymorth gan Lywodraeth Cymru:

Swyddfa'r dyfarnwr annibynnol (OIA): "ar gyfer myfyrwyr mewn addysg uwch"

<http://oiahe.org.uk/making-a-complaint-to-the-oia/how-to-make-a-complaint.aspx#>

*Nid yw'n cynnwys dysgwyr ar gyrsiau Addysg Uwch a ddyfernir gan gorff heblaw prifysgol, e.e. cymwysterau HNC/D a ddyfarnwyd gan Edexcel. Dylid cyfeirio dysgwyr ar y cyrsiau hyn at DfES.

Sylwch: Bydd angen cwblhau Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau (Atodiad E) ar gyfer unrhyw ddysgwyr Addysg Uwch sy'n dymuno gwneud apêl i'r Cynllun OIA. Mae'r rheolau OIA yn eithrio cwynion am dderbyniadau a barn academiaidd, cwynion nad ydynt yn cael eu gwneud o fewn amserlen benodol, a chwynion am faterion nad ydynt yn effeithio'n sylweddol ar y dysgwr fel dysgwr

ATODIAD E

Templed Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau

Sylwch - gellir addasu'r fformat i fodloni amgylchiadau unigol achwynydd ar yr amod bod y pwyntiau allweddol isod wedi'u cynnwys.

Annwyl [*Enw'r achwynydd*]

Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau

Mae'r llythyr hwn yn cadarnhau bod gweithdrefnau mewnol [*enw darparwr addysg uwch*] mewn perthynas â'ch cwyn / apêl etc* ynghylch [*disgrifiad*] wedi cael eu cwblhau.

Y materion a godwyd gennych yn eich cwyn / apêl etc* oedd [*manylion*]

Y mater(ion) a gafodd eu hystyried mewn perthynas â'ch cwyn / apêl etc oedd*: [*crynodeb byr o'r gŵyn etc*].

Penderfyniad terfynol y [*darparwr addysg uwch*] yw* [*manylion*] oherwydd [*rhesymau*].

Y gweithdrefnau / rheoliadau a gymhwyswyd oedd*: [*manylion a dyddiad fel y cawsant eu rhoi i Fanc Rheoliadau Electronic OIA*].

Mae [*enw darparwr*] yn tanysgrifio i'r cynllun annibynnol ar gyfer adolygu cwynion myfyrwyr. Os ydych chi'n anfodlon â'r canlyniad efallai y gallwch wneud cais am adolygiad o'ch cwyn / apêl etc* i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (OIA) ar yr amod bod y gŵyn yr ydych yn ei chyflwyno i'r OIA yn gymwys dan y Rheolau.

Os byddwch yn penderfynu gwneud cwyn i'r OIA, rhaid i'ch Ffurflen Gwynion OIA gael ei derbyn gan yr OIA cyn pen 12 mis o ddyddiad y llythyr, hynny yw, rhaid iddo gyrraedd yr OIA ar y dyddiad hwn neu cyn hynny: [*dyddiad - e.e. os mai dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yw 9 Gorffennaf 2015, dylech roi'r dyddiad 9 Gorffennaf 2016 yma*].

[*Cynhwyswch yma unrhyw ffactorau y mae'r darparwr yn ymwybodol ohonynt a fyddai'n golygu ei bod yn arbennig o bwysig i'r myfyrwr gyflwyno'r gŵyn yn brydlon.*]

Gallwch lenwi ffurflen gwynion OIA ar-lein neu lawrlwytho copi o wefan OIA. <http://oiahe.org.uk/making-a-complaint-to-the-oia/oia-complaint-form.aspx>. Mae'r OIA hefyd yn cyhoeddi *Cyflwyniad i'r Cynllun OIA ar gyfer Myfyrwyr*, y gellir ei lawrlwytho o http://oiahe.org.uk/media/42715/oia_intro_leaflet_16pp.pdf. Fel arall, gallwch ffonio neu ysgrifennu at yr OIA i gael ffurflen. Dylech anfon copi o'r llythyr hwn at yr OIA gyda'ch Ffurflen Gwynion OIA.

Mae canllawiau ar gyflwyno cwyn i'r OIA a Ffurflen Gwynion OIA ar gael ar wefan OIA <http://www.oiahe.org.uk/making-a-complaint-to-the-oia.aspx>. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno gofyn am gyngor gan Undeb y Myfyrwyr ynghylch mynd â'ch cwyn i'r OIA.

Sylwch mai dim ond materion yr ymdriniwyd â hwy drwy weithdrefnau mewnol y darparwr y bydd yr OIA yn eu hadolygu fel arfer.

Yn gywir,

[Llofnod awdurdodedig]



Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA)

Enw'r Polisi/Gweithdrefn	POLISI CWYNION	Perchennog	Cyfarwyddwr (Ansawdd a Phrofiad Dysgwyr)
--------------------------	----------------	------------	--

Ffurflen EIA Cam 1 – Asesiad CYCHWYNNOL

Ticiwch un blwch 'Effaith' yn unig ar gyfer pob Grŵp Targed Cydraddoldeb

Grŵp Targed Cydraddoldeb	Effaith Gadarnh aol ✓	Dim Effaith ✓	Effaith Negyddo ↓ ✓	Rheswm/Sylwadau
Oedran		✓		
Anabledd		✓		
Rhywedd		✓		
Hil		✓		
Cyfeiriadedd Rhywiol		✓		
Grwpiau Ffydd / Dim Ffydd		✓		
Yr Iaith Gymraeg		✓		
Arall		✓		

Ffurflen EIA Cam 2 – Asesiad LLAWN

Cwblhewch yr adran hon os ydych chi wedi ticio unrhyw un/rhai o'r bocsys 'Effaith Negyddol' uchod

Grŵp Targed Cydraddoldeb	Pa newidiadau neu gamau a fydd yn cael eu cymryd i wella'r weithdrefn neu i ddileu/lleihau'r effaith negyddol?

Canllaw Ychwanegol:

1.0 Asesiad Effaith Gofyniad Cyfreithiol.

Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynnal Asesiad Effaith ar eu polisiau drafft neu gyfredol, arferion, swyddogaethau a gwasanaethau cyfredol ar sail hil, anabledd a rhywedd. Wrth ragweld newidiadau deddfwriaethol yn ymwneud ag anabledd yn y dyfodol, bydd Asesiad Effaith y Coleg yn cael ei weithredu i ystyried yr effaith ar bob maes amrywiaeth.

2.0 Enghreifftiau o Grwpiau Targed Cydraddoldeb.

2.1 Oedran

Bydd angen i'r diffiniad o grwpiau oedran fod yn sensitif i'r polisi dan sylw. Er enghraifft, yn ymwneud â pholisiau cyflogaeth mae merched canol oed yn aml yn grŵp agored i niwed ac mae oedran pensiwn yn wahanol i ddynion a merched.

2.2 Rhywedd

Dynion (gan gynnwys bechgyn), Merched (gan gynnwys genethod) a phobl Drawsrywiol. Gall hyn hefyd gynnwys effaith ar rywedd arbennig sydd ag ymrwymadau gofal.

2.3 Anabledd

Pobl ag anabledd fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, megis y rhai â nam ar y clyw, nam ar y golwg, y rhai ag anabledd corfforol, anabledd dysgu neu broblemau iechyd meddwl.

2.4 Grŵp Hil

Grŵp o bobl a ddiffinnir gan hil, lliw, cenedligrwydd a tharddiad ethnig neu genedlaethol. Mae enghreifftiau yn cynnwys: Sipsiwn Romani, Iddewon, Siciaid, pobl Tseiniaidd, pobl Indiaidd, pobl Bacistanaidd, pobl Bangladeshaid, pobl Ddu Affricanaidd, pobl Ddu Caribiaidd, Gwyddelod, Cymry, pobl Dwrciaidd, pobl Cypriot Groegaidd, grŵp ethnig cymysg, unrhyw grŵp ethnig/cenedligrwydd arall.

2.5 Ffydd/Crefydd

Crefydd neu gred yw unrhyw grefydd, cred grefyddol neu gred athronyddol debyg ond nid yw'n cynnwys unrhyw gred athronyddol neu wleidyddol oni bai ei fod yn debyg i gred grefyddol. Mae cred grefyddol yn debygol o gynnwys rhyw fath o addoli ar y cyd, system gred glir neu gred ddwys sy'n effeithio ar ffordd o fyw neu ffordd o edrych ar y byd. Mae diffyg cred hefyd yn dod dan y rheoliadau. Mae enghreifftiau yn cynnwys; Bwdhaeth, Cristnogaeth (Protestannaidd, Catholig etc), Hindŵaeth, Agnostaidd etc, unrhyw grefydd arall.

2.6 Cyfeiriadedd Rhywiol

Fel y'i diffinnir dan Reoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003:

- Cyfeiriadedd tuag at bobl o'r un rhyw (hoi/lesbiaidd)
- Cyfeiriadedd tuag at bobl o'r rhyw arall (heterorywiol)
- Cyfeiriadedd tuag at bobl o'r un rhyw a rhyw arall (heterorywiol)

2.7 Arall (er enghraifft yr Iaith Gymraeg)

Mae hyn yn cynnwys gwahanol fathau o gontractau, gan gynnwys llawn amser, rhan amser, tâl fesul awr neu unrhyw faes arall nad yw wedi cael ymdriniaeth eisoes, fel pobl agored i niwed e.e. dioddefwyr trais domestig a phriodasau dan orfodaeth.